## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol
## 12 Chwefror 2002

## Cynigion a gyflwynwyd ar 5 Chwefror 2002

**NDM953 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, a gaiff ei alw'n Bwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2002-3 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35 i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i'r cyfryw Bwyllgor;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Richard Edwards AC
Val Lloyd AC
Geraint Davies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn dod i ben pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 15 Mawrth 2002, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn dod i ben heb i'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw fater, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**

Cais gan Castle Cement Ltd am res o odynau newydd a gweithfeydd cysylltiedig, storfa galchfaen, adeiladau storio tanwydd, ail-broffilio cyn safle gwastraff trwyddedig, a gweithfeydd atodol yng Ngweithfeydd Sment Padeswood, Padeswood, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint.

**NDM954 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, a gaiff ei alw'n Bwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2002-2 yn cael ei sefydlu,

yn unol â Rheol Sefydlog 35 i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i'r cyfryw Bwyllgor;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Sue Essex AC (Cadeirydd)
Karen Sinclair AC
Rhodri Glyn Thomas AC
David Davies AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn dod i ben pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 28 Chwefror 2002, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn dod i ben heb i'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw fater, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**

Cais gan Awdurdod Datblygu Cymru am ddatblygiad busnes a diwydiannol arfaethedig ar dir i'r gogledd ddwyrain o Heol Shotwick, Parth Datblygu Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint.

**NDM955 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grantiau Arbennig (Rhif 24) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002.

**NDM956 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grantiau Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002.

**NDM959 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grantiau Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002.

**NDM958 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi Gwledig) 2002, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002.

**NDM957 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethu Gwledig) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002**.**

**NDM960 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002;

2. Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; a'r

b) Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002

3. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002; ac

4.Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y

gorchymyn drafft Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; a’r

b) Arfarniad Rheoleiddiol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002.

5. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2002; ac

6.Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; a’r

b) Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2002 ac anfonwyd ar e-bost i’r Aelodau ar 5 Chwefror 2002.

**NDM961 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1.Yn croesawu’r cyfres gyntaf o Reoliadau a Safonau Cenedlaethol Gofynnol a fydd yn sail i waith yr Arolygiaeth Safonau Gofal (CSIW) o fis Ebrill eleni ac a fydd yn arwain at welliant yn y gwaith o reoli amgylchiadau gofal drwy gyflwyno cydlyniad, cysondeb ac annibyniaeth i’r broses reoleiddio drwy Gymru gyfan;

2. Yn nodi bod y Rheoliadau wedi eu cynllunio i gyflwyno gwell diogelwch i aelodau a phlant bregus, ac aelodau sy’n derbyn gofal mewn cartref; a gwelliant yn safon y gofal maent yn ei dderbyn;

3. O’r 1 Ebrill yn croesawu i’r Cynulliad tua 200 aelod o staff o’r 22 awdurdod lleol a’r 5 awdurdod iechyd ac yn dymuno’n dda iddynt yn y Cynulliad;

4. Yn nodi y bydd creu 8 swyddfa ranbarth a 3 swyddfa lleol ar gyfer CSIW yn codi proffil a phresenoldeb y Cynulliad ledled Cymru.

Cafodd y Rheoliadau cyntaf (sy’n cynnwys Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002; Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002; Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002) eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002. Cafodd copi o’r Safonau Cenedlaethol Gofynnol eu hanfon drwy’r e-bost i bob Aelod ar 5 Chwefror 2002.

**NDM962 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002;
2. Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002;
3. Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2002;

*[I’w nodi: Ni osodwyd adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn, gan fod y gofynion gweithdrefnol wedi eu datgymhwyso gan Gabinet y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii)].*

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Chwefror 2002**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau a ganlyn i gynigion:

**NDM961**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt 3 dileu 'croesawu' a rhoi yn ei le 'nodi trosglwyddiad' a dileu popeth ar ôl 'awdurdod iechyd'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo'r Llywodraeth i sicrhau bod ymgynghori llawn a thrylwyr â'r sector gofal amrywiol yn rhan barhaus o'r broses reoleiddio.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder dybryd ynghylch tan-ariannu gwasanaethau gofal yn gyffredinol yng Nghymru, ac yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod gwasanaethau gofal yn cael eu hariannu er mwyn cyrraedd a chynnal y safonau uchaf.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd costau i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn deillo o gyflwyno Safonau

Cenedlaethol Gofynnol ac y bydd yn rhaid i’r rhain gael eu talu trwy lefelau ffioedd uwch.

**NDM962**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Dileu "Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol".

A rhoi yn ei le:

"Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu at y ffaith bod y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfwriaeth wedi’i datgymhwyso’n rhannol o ganlyniad i amryfusedd Gweinyddiaeth y Cynulliad wrth lunio’i hamserlen, ond"